



**Cofnodion Bwrdd TrC**

**18 Tachwedd 2021**

10:00 – 16:30

Lleoliad – Llys Cadwyn, Pontypridd ac ar-lein

---

**Yn bresennol**

Scott Waddington (Cadeirydd); Heather Clash; Vernon Everitt; Sarah Howells; Nicola Kemmery; Alison Noon-Jones; a James Price.

Hefyd yn bresennol: Natalie Feeley (eitemau 1-3); Leyton Powell (eitemau 1a - 2c); a Jeremy Morgan. Sesiwn diweddariad gweithredol (Rhan B): Lewis Brencher; Karl Gilmore; Lee Jones; Lee Jones (eitem 4); Richard Marwood; (eitem 4); Geoff Ogden; David O'Leary; Leyton Powell; Dan Tipper (eitem 4); Dave Williams; a Lisa Yates.

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

**Rhan A – Cyfarfod o'r Bwrdd Llawn**

**1a. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Dim.

**1b. Hysbysiad ynghylch Cworwm**

Gan fod yna gworwm yn bresennol, agorodd y Cadeirydd y cyfarfod drwy groesawu pawb yno.

**1c. Datganiadau Diddordeb**

Dim wedi'i ddatgan.

**1d. Cofnodion a Chamau Gweithredu o'r Cyfarfod Blaenorol**

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod Bwrdd TrC ar 21 Hydref 2021 yn gofnod gwir a chywir.

Nodwyd y cofnod camau gweithredu.

**1e. Sylw i Ddiogelwch**

Ystyriodd y Bwrdd ddamwain reilffordd ddiweddar Cyffordd Twnnel Salisbury. Er nad oedd natur y ddamwain yn gymhleth, gallai arwain at oblygiadau o bwys. Mae adolygiad o'r gwersi sydd i'w dysgu wedi cael ei gynnal ac mae'n rhan o'r diweddariad diogelwch.

**1f. Sylw i Gwsmeriaid**

Gallai TrC ystyried defnyddio strategaeth y diwydiant twristiaeth o ryngweithio â'r manau hynny nad yw'n eu cyrraedd mewn ardaloedd nad ydynt yn cael eu rheoli gan TrC.

## **2. Perfformiad diogelwch**

Ymunodd Leyton Powell â'r cyfarfod.

Ni chafwyd unrhyw ddiogelwch yng Ngrŵp TrC dros y cyfnod diwethaf. Mae rhaglen Arweinyddiaeth Visible Felt yn cael ei datblygu gyda sesiynau briffio staff wedi'u trefnu dros yr wythnosau nesaf. Mae'r gwaith o ddatblygu'r broses ddiogelu yn parhau. Mae cymorth yn parhau i gael ei ddarparu i Pullman Rail i wella perfformiad diogelwch ymhellach.

Ni chafodd Rheilffyrdd TrC unrhyw broblemau diogelwch mawr yn ystod y cyfnod diwethaf. Bu cynnydd bychan mewn SPADs sy'n destun ymchwiliad gan is-bwyllgor Diogelwch Rheilffyrdd TrC Cyf a fydd yn adrodd ar y canfyddiadau i Bwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles TrC. Mae'r ymosodiadau corfforol blynyddol tra'n symud yn dal yn uwch ar gyfartaledd na'r ffigurau a ragwelwyd.

Adolygodd y Bwrdd ganfyddiadau cychwynol o ddamwain Cyffordd Twnnel Salisbury a'r gwersi y gellir eu cymhwysu i TrC, a chymerwyd camau ar unwaith i ganfod unrhyw ganlyniadau i TrC o ran parodrwydd tymhorol. Bydd adolygiad pellach yn cael ei gynnal pan fydd y Gangen Ymchwilio i Ddamweiniau Rheilffyrdd wedi cyhoeddi ei hadroddiad terfynol.

Cwblhawyd arolygiadau Awdurdodiad Diogelwch ORR ganol mis Medi ac mae adborth wedi'i dderbyn yn ddiweddar, gyda 16 o gamau gwella wedi'u nodi. Bydd cyfarfod ffurfiol gydag AIW yn cael ei drefnu i adolygu'r canfyddiadau ac i ddeall yr effeithiau a'r risgiau posibl i TrC. Prif thema'r canfyddiadau oedd: dilyn y system rheoli diogelwch o ran cydymffurfio ag ymchwiliadau; archwilio a risg; ac adnoddau cymwys.

O ran Trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd, mae cynllun sicrwydd diogelwch yn cael ei ddatblygu. Bydd Partneriaid Cyflenwi Seilwaith yn cymryd rhan yn y camau nesaf.

Adroddodd Pullman Rail am nifer o digwyddiadau trwch blewyn dros y cyfnod diwethaf. Mae camau gwella wedi'u nodi ac mae strategaeth gwelliant parhaus yn cael ei datblygu.

Trafododd y Bwrdd faterion capasiti diweddar ar drenau. Nodwyd nad yw cadw pellter cymdeithasol yn ofyniad cyfreithiol mwyach. Nododd y Bwrdd fod popeth posibl yn cael ei wneud i greu'r capasiti mwyaf posibl ar ein gwasanaethau a bod defnyddio'r Gwiriwr Capasiti yn cael ei hyrwyddo er mwyn galluogi cwsmeriaid i wneud penderfyniadau am eu teithiau ar sail gwybodaeth.

## **3. Diweddariad strategol**

### **3a. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol**

Er bod llwyth gwaith sylweddol, mae'r uwch dîm yn parhau i ganolbwyntio ar nodau strategol tymor hir - integreiddio a newid moddol - yn ogystal â dechrau gwaith mwy sylweddol yn adolygu model gweithredu TrC.

Mae refeniw rheilffyrdd yn parhau i gynyddu ochr yn ochr â gostyngiad mewn teithio heb docyn. Mae'n debygol y bydd angen lleihau cyllidebau yn y dyfodol, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i nodi gweithgareddau sy'n cynhyrchu refeniw.

Mae'r perfformiad ar draws y rhwydwaith yn sefydlog ar y cyfan ond mae rhywfaint o fregusrwydd, yn enwedig ar sail faint o yrwyrr a gwarchodwyr sydd ar gael ac, mewn rhai achosion, prinder cerbydau. Mae yna broblemau penodol o ran dibynnu ar shifftiau heb fod yn rhan o gontract ac mae angen cyrraedd pwynt o gael gweithlu sefydlog nad yw'n ddibynnol ar oramser neu waith gwirfoddol.

Mae gwaith Caerdydd Heol y Frenhines yn parhau, lle mae dull gwahanol wedi'i ddefnyddio i geisio cyflymu'r broses o adnewyddu'r orsaf a lleihau costau. Mae timau'n cael eu herio ar sut mae gwella a chyflwyno'r dull hwn yn gyson ar draws gorsafoedd eraill.

Mae'r gwaith o baratoi ar gyfer gwella amserlenni yn y dyfodol yn parhau ac mae naratif yr Adran Drafndiaeth wedi newid i un lle mae'n cydnabod ei chyfrifoldebau seilwaith yng Nghymru yn gynyddol, yn ogystal â chyllido'r gwaith angenrheidiol i ganiatáu i amserlenni diwygiedig weithredu. Mae risgiau sylweddol yn parhau o ran faint o amser a ganiateir gan Network Rail i roi'r newidiadau gofynnol ar waith.

[REDACTED]

Mae'r gwaith o feddwl yn strategol wedi dechrau ar fodel gweithredu a strwythur TrC. Dylai'r gwaith hwn sicrhau nad yw gweithgareddau sy'n rhan o'r cylch gwaith yn cael eu "hychwanegu" wedyn a bod dull gweithredu yn cael ei gynllunio i gyflawni diben craidd TrC, gan gynnwys trosglwyddiadau FIT posibl nawr yn hytrach na phan fyddant yn digwydd, a gwneud hynny mor effeithlon ac effeithiol â phosibl.

Mae trafodaethau wedi cael eu cynnal gyda GB Rail lle mae'n ymddangos nad yw materion datganoledig wedi cael llawer o ystyriaeth eto. Cytunwyd y byddai papur yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ar y cyfleoedd a allai fod ar gael i TrC drwy greu Rheilffyrdd Prydain Fawr, gan gynnwys y goblygiadau ymarferol i wasanaethau yng Nghymru [**Gweithredu James Price**] Mae trafodaethau'n cael eu cynnal hefyd gyda Transport Scotland, TfL a TrC.

[REDACTED]

Mae'r adolygiad strategol o Gytundeb Grant Gwasanaethau Rheilffyrdd TrC yn parhau gyda'r dull gweithredu a'r cynigion hyd yma wedi'u cefnogi mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru. Heriodd y Bwrdd yr angen am Gytundeb Grant manwl iawn.

### 3b. Cyllid a llywodraethu

Rhodddwyd crynodeb i'r Bwrdd o'r prif feysydd cyllid a llywodraethu y canolbwyntiwyd arnynt dros y cyfnod diwethaf:

- cau'r bwllch cyllido ochr yn ochr â'r MA ar gyfer COVID-19 y Rheilffyrdd yn gofyn am £53m o gyllid refeniw ychwanegol. Mae'r bwllch yn y gyllideb gyfalaf oddeutu £20m;
- cynllunio a negodi cerbydau;
- ailsefydlu llinell sylfaen Rhaglen Llinellau Craidd y Cymoedd, gan gynnwys yr effaith ar gyllid ERDF;
- adrodd ar DPAion gan gynnwys cerrig milltir y cynllun busnes ar gyfer 2021/22;

- cynllunio busnes a chyllidebu ar gyfer 2022/23 gan gefnogi Llywodraeth Cymru gyda chynllunio ar gyfer y blynyddoedd i ddod sy'n ymwneud â'r Rhaglen Lywodraethu a heriau cyllido'r blynyddoedd i ddod;
- cwblhau cyfnod pontio Pullman Rail;
- y posibilrwydd o ariannu prosiectau / gweithgareddau ychwanegol yn ystod y flwyddyn ariannol mewn perthynas ag unrhyw gyllid dros ben gan Lywodraeth Cymru;
- gweithgareddau ychwanegol gan gynnwys grantiau teithio llesol taliad Ch2, cynlluniau bysiau, PTI, Gwasanaethau Gwybodaeth TrC (JV) a chynlluniau strategol allweddol eraill ar gyfer y blynyddoedd ariannol i ddod, gan gynnwys FIT / SRN
- adrodd a llywodraethu gan gynnwys cynlluniau tryloywder, cyflwyno SOX yn y DU ac adroddiadau dangosfwrdd ariannol pellach.

Gadawodd Natalie Feeley y cyfarfod.

### **3c. Diweddariad ar yr is-fyrddau**

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am gyfarfodydd diweddar is-fyrddau Pullman Rail Ltd a Rheilffyrdd TrC Cyf. Roedd gwella perfformiad diogelwch yn flaenoriaeth benodol a drafodwyd gan Fwrdd Pullman yn ogystal â materion cynnal a chadw.

### **3d. Diweddariad ar yr is-bwyllgorau**

Roedd y Pwyllgor Cwsmeriaid a Chyfathrebu diweddar wedi adolygu metrigau perfformiad, ansawdd gwasanaeth, profiad cwsmeriaid, hygyrchedd a chynhwysiant, canlyniadau cysylltiadau cwsmeriaid, diweddariad ar y panel ar-lein newydd, fflecsi, y 'Cwsmer yn Gyntaf' a Webtis.

Nododd Prif Bwyllgor Prosiectau mis Tachwedd waith ar ddatblygu'r Swyddfa Rheoli Rhaglenni, gwaith paratoi ar gyfer Rheolwr Seilwaith Cymru Last Resort, ynghyd â'r wybodaeth ddiweddaraf am sawl prosiect. Nododd y Pwyllgor y ddibyniaeth sylweddol ar Network Rail i fwrw ymlaen â phrosiectau. Ni wnaeth y Pwyllgor drafod Trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd yng ngoleuni'r ymarferiad presennol i ailsefydlu'r llinell sylfaen ac, yn hytrach, mae wedi cytuno i gyfarfod arbennig ar wahân wedi'i drefnu ar gyfer 9 Rhagfyr i drafod Trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd.

### **3d. Bwrdd Llywio TrC**

Rhoddodd y Cadeirydd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am gyfarfod diweddar y Bwrdd Llywio a oedd wedi ystyried trosglwyddo PTI Cymru, ymgysylltu Gweinidogol, Llinellau Craidd y Cymoedd, trosglwyddo Rhwydwaith Ffyrdd Strategol, gwasanaethau bysiau, statws TAW, a dangosyddion perfformiad allweddol.

### **Rhan B – Sesiwn diweddariad gweithredol**

Ymunodd Lewis Brencher, Karl Gilmore, Lee Jones, Richard Marwood, Geoff Ogden, David O'Leary, Leyton Powell, Dan Tipper, Dave Williams a Lisa Yates â'r cyfarfod.

## **4. Ailsefydlu llinell sylfaen Llinellau Craidd y Cymoedd**

[REDACTED]

Gadawodd Karl Gilmore, Lee Jones a Dan Tipper y cyfarfod.

## 5. Rhaglen FIT

Trafododd y Bwrdd gynnwys papur yn nodi datblygiadau diweddaraf rhaglen Trafnidiaeth Integredig y Dyfodol (FIT) a'r bwriad i drosglwyddo swyddogaethau darparu rhwydwaith ffyrdd strategol o Lywodraeth Cymru i TrC. Yn ogystal â'r papur a gyflwynwyd, hysbyswyd y Bwrdd y cynhaliwyd cyfarfod gyda Llywodraeth Cymru yn ddiweddar i adolygu'r cynnydd o ran trosglwyddo swyddogaethau darparu rhwydwaith ffyrdd strategol. Yn y cyfarfod hwnnw, dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod wedi cyfarfod ac wedi ystyried y camau nesaf yn dilyn trafodaeth rhwng Gweinidogion.

[REDACTED]

Nododd y Bwrdd sylwadau Llywodraeth Cymru a chytunodd fod angen ystyried amseriad unrhyw drosglwyddiad yn ofalus a bod angen iddo gyd-fynd â blaenoriaethau eraill strategol bwysig. Cytunodd y Bwrdd hefyd i drafod y mater yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Llywio ac i geisio rhagor o eglurder ynghylch y tebygolrwydd y bydd unrhyw swyddogaethau darparu rhwydwaith ffyrdd strategol yn cael eu trosglwyddo.

## 6. Prosiect peilot Talu-wrth-Ddefnyddio

Ymunodd Helen Mitchell â'r cyfarfod. Trafododd y Bwrdd bapur ac achos busnes ategol ar brosiect peilot Talu-wrth-Ddefnyddio. Mae'r prosiect yn cyd-fynd ag argymhellion Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru ynghylch cynnig taliadau cerdyn clyfar digyswllt ac integreiddio trefniadau tocynnau ar gyfer rheilffyrdd a bysiau.

Cymeradwyodd y Bwrdd fwrw ymlaen â'r prosiect peilot Talu-wrth-Ddefnyddio fel un o amcanion strategol allweddol Llywodraeth Cymru fel y nodir yn yr achos busnes; gwariant o £10.46m o wariant cyfalaf a gwariant gweithredol o £7.66m i gwblhau'r cynllun peilot; estyniad i Fetro De-ddwyrain Cymru; a dyfarnu contract gyda Visa Ticketing i gyflawni rhannau allweddol o'r prosiect peilot. Roedd y gymeradwyaeth yn amodol ar fodloni ymholiadau Bwrdd Rheilffyrdd TrC ynghylch y cynnig i gwsmeriaid o ran derbyniad ar linellau gatiu yng ngorsafoddd Caerdydd Canolog a Chasnewydd ar gyfer cwsmeriaid a oedd yn teithio gyda chardiau cEMV yn ystod y cyfnodau peilot rheilffyrdd.

## 7. Strategaeth Gorfforaethol

Nododd y Bwrdd y cynnydd o ran datblygu strategaeth gorfforaethol bum mlynedd TrC.

## 8. Diweddariad ar fysiau

[REDACTED]

## 9. Cofrestr risg

Nodwyd fersiwn ddiweddaraf y gofrestr risg. Mae proses risg Pullman Rail wedi cael ei hadolygu a chanfuwyd na fyddai'r gost o'i chymharu â'r budd o ymgorffori risgiau Pullman yn y system ARM yn ffafriol. Mae'r prif risgiau strategol yn aros yr un fath o ran defnyddio cyllid ERDF ar gyfer Trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd; cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23 [REDACTED]

Mae risgiau newydd wedi dod i'r amlwg o ran cyflenwi deunyddiau hanfodol a'r cynnydd ym mhrisiau ynni.

## 10. Prosiectau Cyflawni TrC – Amserlen Contractau Byw a Chipolwg ar Gaffael

Nododd y Bwrdd yr amserlen contractau byw a golwg chwe mis ar gaffael.

## 11. Diweddariad ar bobl

Cafodd y Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau allweddol y gyfarwyddiaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol, gan nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r angen i gyflogau gyd-fynd â chyfraddau'r farchnad er mwyn denu ymgeiswyr a chadw staff ar gyfer rolau arbenigol. Cafodd y Bwrdd hefyd yr wybodaeth ddiweddaraf am fentrau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, a'r agwedd strategol tuag at dalent gynnar a dysgu a datblygu.

## 12. Adroddiad cyfathrebu

Roedd y cyfnod diwethaf yn fwy cadarnhaol na'r cyfnod blaenorol, gyda dileu'r ddeddfwriaeth cadw pellter cymdeithasol yn gostwng y lefelau craffu. Cefnogwyd yr ymdrechion i gynyddu nifer y teithwyr drwy gynyddu gweithgareddau ymgysylltu rhagweithiol 'yn bersonol' sydd wedi helpu i wella'r argraff a wnaiff TrC fel brand. Mae cwsmeriaid yn parhau i fynegi eu pryderon am orchuddion wyneb a chapasiti ar wasanaethau, a chafodd 'wythnos o weithredu' ar orchuddion wyneb ymateb cadarnhaol. Nodwyd bod cyflwyno'r wefan 'un parth' a chwblhau datblygiad creadigol yr ymgyrch adfer galw yn gerrig milltir allweddol. Bydd amseriad y cynllun adfer yn cael ei drafod gyda Llywodraeth Cymru. Nododd y Bwrdd y sicrhawyd nawdd gan dywydd ITV Cymru. Mae llawer iawn o weithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r gymuned yn parhau.

## 13. Unrhyw fater arall

Mae'r gwaith ymgysylltu'n parhau gyda thîm y Ganolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd, gan ymchwilio i'r cyfleoedd i TrC gymryd rhan. Yn amodol ar fân newidiadau, cymeradwyodd y Bwrdd ddatganiad i Fwrdd y Ganolfan Fyd-eang Rhagoriaeth Rheilffyrdd i gefnogi ei agenda arloesi.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb a oedd yn bresennol am eu cyfraniadau.